

Cyngor Bwrdeistref Sirol



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Asesiad Effaith Gronnol:

Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

2025 - 2028

Cynnwys

	Tudalen
1. Cefndir	3
2. Nodau'r Polisi	3
3. Rhesymau dros yr AEG	3
4. Tystiolaeth	4
5. Tystiolaeth Arall	4
6. Mesurau Eraill	5
7. Casgliad	5
8. Cais yr Heddlu	5-6
9. Rhestr o Atodiadau:	6

Asesiad Effaith Gronnol (AEG): Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

1. Cefndir

Mae ardal y Cyngor yn cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol a gwledig ac mae ganddi boblogaeth o tua 145,000. Y prif drefi yw Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl.

Mae poblogaeth uniongyrchol Tref Pen-y-bont ar Ogwr tua 15,000 wedi'i dosbarthu dros dair ward Morfa, Y Castell Newydd a'r Hen Gastell sydd i gyd o fewn pellter o ddwy filltir i'r canol. Mae rhai o strydoedd canol y dref wedi'u cau i gerbydau.

Ers sefydlu Deddf Trwyddedu 2003 ym mis Tachwedd 2005, mae Heol Derwen, Stryd y Farchnad, Wyndham Street a Stryd Nolton wedi bod yn destun polisi arbennig i liniaru effaith gronnol negyddol safleoedd trwyddedig.

2. Nodau'r Polisi Effaith Gronnol

Nod y polisi yw lleihau achosion o broblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol, trosedd, anhrefn, niwsans cyhoeddus, a risgiau i ddiogelwch y cyhoedd, yn enwedig gyda'r hwyrnos. Ei nod yw atal cynnydd yn nifer y sefydliadau yfed sylweddol sy'n agor yn hwyr gyda'r bwriad o sicrhau bod Canol y Dref yn amgylchedd diogel i bobl sy'n ymweld, yn gweithio ac yn byw yn yr ardal.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gellir gwella ardal problemau trwy gyflwyno arddulliau newydd o fathau o fusnes, megis safleoedd a arweinir gan fwyd, neu fentrau o ansawdd uchel/arbenigol, yn hytrach na sefydliadau yfed wrth sefyll.

Prif Neges

Nod y Polisi yw annog safleoedd trwyddedig amrywiol sy'n cael eu rhedeg yn dda (i safon eithriadol), lle nad yfed alcohol yn sylweddol yw prif nod y safle.

Anogir safleoedd sy'n croesawu teuluoedd ynghyd â chaffis a bwytai.

3. Y rhesymau dros yr AEG

Mae nifer o broblemau yn yr ardal a achosir gan effaith gronnol llawer o safleoedd trwyddedig. Mae'r problemau hyn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu canlynol:

- Atal trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelu'r cyhoedd
- Gwarchod plant rhag niwed

Mae'r Asesiad Effaith Gronnol ar waith i leihau'r problemau hyn ymhellach a hyrwyddo'r amcanion hyn.

4. Tystiolaeth

Mae Heddlu De Cymru wedi cyflwyno dadansoddiad manwl o safleoedd trwyddedig sy'n awdurdodi gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Heddlu yn cael ei gydnabod gan y Swyddfa Gartref fel yr Awdurdod Cyfrifol arweiniol dros drosedd ac anhrefn.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos y bu cynnydd o 8% mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â safleoedd trwyddedig yng nghanol y dref rhwng 2023 a 2024. Y mathau mwyaf o ddigwyddiadau a gofnodwyd oedd troseddau Trais yn erbyn y Person, dilynwyd hyn gan ddigwyddiadau Pryder am Ddiogelwch a oedd yn ymwneud yn bennaf ag unigolion meddw iawn.

Mae'r adroddiad yn nodi ardal lle mae 70% o'r digwyddiadau sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig yng nghanol y dref wedi'u cofnodi. Mae'r ardal hon yn cynnwys Wyndham Street a Stryd y Farchnad. Ar hyn o bryd mae'r ardaloedd hyn yn rhan o'r Asesiad Effaith Gronnol ochr yn ochr â Heol Derwen a rhan o Heol Nolton; nid yw'r ardaloedd hyn yn ymddangos yn yr ardal sy'n peri pryder hon a amlygwyd.

Er bod yr Heddlu wedi nodi'r ardal hon lle mae'r nifer uchaf o ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi, mae ei ddadansoddiad o broffil y broblem yn cwmpasu canol y dref gyfan sy'n cynnwys Caeau'r Bragdy a safleoedd trwyddedig Heol y Bont-faen. Cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd a oedd yn ymwneud â safleoedd trwyddedig yn 2024 ar gyfer canol y dref oedd 313.

Yn unol â'r adroddiad, y mathau o safleoedd sy'n achosi'r nifer fwyaf o ddigwyddiadau trosedd ac anhrefn yr heddlu yw tafarndai, bariau a chlybiau nos.

Mae copi o'r adroddiad a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru sy'n cynnwys map o'r ardal a ddadansoddwyd ar gael yn **Atodiad A**.

5. Tystiolaeth arall a ystyriwyd

Ymysg y dystiolaeth arall a ystyriwyd roedd cwynion am sŵn yn ymwneud â safleoedd trwyddedig a wnaed i dîm Llygredd y Cyngor o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir rhwng 2018 a 2024. Mae'r cwynion yn ymwneud â safleoedd trwyddedig yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Blwyddyn Derbyn	Nifer y cwynion
2018	11
2019	8
2020	3
2021	37
2022	19
2023	17
2024	13

6. Ystyried mentrau eraill a gweithio mewn partneriaeth

Mae nifer o fesurau ar waith yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r nod o ddarparu amgylchedd diogel a lleihau problemau trosedd, anhrefn a niwsans. Mae'r mesurau hyn wedi'u hystyried wrth benderfynu ar yr Asesiad Effaith Gronnol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynlluniau Pubwatch.
- Darparu teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus.
- Cyflogir Stiwardiaid Tacsis i helpu i wasgaru cwsmeriaid o safleoedd hwyrnos.
- Pwerau gorfodi sydd ar gael i'r Heddlu, Swyddogion Trwyddedu a Swyddogion Safonau Masnach o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.
- Cyfyngiadau drwy reoliadau cynllunio.

7. Casgliad

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad i fabwysiadu a chyhoeddi Asesiad Effaith Gronnol ar gyfer ceisiadau Grant ac Amrywio Llawn ar Drwydded Safle sy'n ymwneud â gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle yn y strydoedd canlynol a enwir ar gyfer canol tref Pen-y-bont ar Ogwr:

- Wyndham Street
- Stryd y Farchnad

Ar ôl ystyried mentrau eraill sy'n bodoli eisoes, mae'n credu ei fod yn gymesur a'r mesur mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd.

8. Rhoi'r polisi ar waith

Gan ystyried y Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymgynghori ar y mater effaith gronnol yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae wedi ystyried barn Heddlu De Cymru ac ymatebwyr eraill ac wedi mabwysiadu AEG ar gyfer Grantiau ac Amrywio Llawn ar Drwyddedau Safle ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle mewn cysylltiad â'r adeiladau hynny sydd wedi'u lleoli ar Heol Derwen, Stryd y Farchnad a Wyndham Street.

Rhoddir sylw hefyd, lle derbynnir sylwadau perthnasol ar gyfer safle sy'n gyfagos neu'n agos iawn i ardal yr AEG, a lle mae'r sylwadau hynny'n codi effaith sylweddol ar yr ardal, bydd yr AEG yn berthnasol os yw'r awdurdod trwyddedu o'r farn resymol y byddai cymeradwyo'r cais penodol yn anghyson â'i ddyletswydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Dylid darllen yr AEG hwn ar y cyd â Datganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r AEG yn berthnasol i geisiadau am grant ac amrywio llawn ar Drwydded Safle sy'n ymwneud â gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle. Nid yw'n berthnasol i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle, Tystysgrifau Safleoedd Clwb na Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro.

Pan fo'r polisi'n berthnasol mae'n creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy sef, lle bo sylwadau perthnasol wedi'u derbyn, y caiff y cais ei wrthod neu bydd yn amodol ar gyfyngiadau penodol oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu dangos yn llwyddiannus na fydd y safle yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

Disgwylir i ymgeiswyr fynd i'r afael ag effeithiau effaith gronnol yn yr Atodlen Weithredu. Disgwylir iddynt ddangos yn glir sut na fyddai gweithrediad y safle yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol a brofir yn yr ardal.

9. Rhestr o Atodiadau

Atodiad A – Tystiolaeth yr Heddlu